**COD YMDDYGIAD TG**

Mae'r Cod Ymddygiad hwn yn nodi'r egwyddorion ar gyfer defnyddio systemau TG a gwasanaethau rhyngrwyd y Coleg mewn modd priodol a chyfrifol. Disgwylir i bob dysgwr gynnal y safonau hyn bob amser.

1. **Defnyddio TG y Coleg**
    - Defnyddiwch y systemau TG er mwyn dysgu ac ar gyfer gwaith coleg yn unig.
    - Parchwch yr offer a rennir - peidiwch â symud, difrodi na newid gosodiadau.
    - Caniateir defnydd personol **ar yr amod** nad yw'n effeithio ar eich astudiaethau chi nac astudiaethau pobl eraill.
2. **Y Rhyngrwyd, E-bost a Sgwrsio**
    - Defnyddiwch y rhyngrwyd er mwyn dysgu.
    - Peidiwch â chyrchu na rhannu unrhyw beth anweddus, sarhaus neu anghyfreithlon.
    - Defnyddiwch eich e-bost coleg ar gyfer gwaith coleg yn unig.
    - Gwiriwch eich negeseuon e-bost o leiaf unwaith yr wythnos.
    - Defnyddiwch blatfformau sgwrsio ar gyfer trafodaethau sy'n ymwneud â'r coleg a pharchwch eraill.
3. **Byddwch yn Ddiogel**
    - Cadwch eich cyfrinair yn breifat – peidiwch â'i rannu.
    - Rhowch Ddilysu Aml-Ffactor (MFA) ar Waith.
    - Peidiwch byth â defnyddio manylion mewngofnodi rhywun arall.
    - Gall popeth yr ydych chi'n ei wneud ar-lein gael ei fonitro gan y Coleg.
4. **Ni Chaniateir**
    - 🚫 Hacio neu geisio mynd i mewn i systemau heb ganiatâd.
    - 🚫 Lledaenu firysau neu lawrlwytho meddalwedd niweidiol.
    - 🚫 Seiberfwlio neu rannu cynnwys tramgwyddus.
    - 🚫 Twyllo, llên-ladrad, neu dorri rheolau arholiad.
    - 🚫 Tynnu neu rannu lluniau/fideos o bobl eraill oni bai eu bod yn rhoi eu caniatâd.
5. **Defnyddio Eich Dyfais Eich Hun (BYOD)**
    - Gallwch gysylltu â Wi-Fi y coleg gan ddefnyddio dyfeisiau diogel, wedi'u diweddaru.
    - Peidiwch â defnyddio dyfais sydd wedi bod yn destun 'jailbreak' neu 'root'.
    - Defnyddiwch geblau gwefru diogel yn unig.
6. **Cadw Gwaith**
    - Defnyddiwch Google Drive neu storfa'r coleg i gadw copi wrth gefn o'ch gwaith.
    - Mae eich ffeiliau coleg yn cael eu cadw am **hyd at 12 mis** ar ôl i chi adael.

**Angen Help?**
Os oes gennych broblem neu os ydych chi'n sylwi ar unrhyw beth anarferol, cysylltwch â'r Ddesg Gymorth TG:

📞 **01554 748089** | 📧 helpdesk@colegsirgar.ac.uk

**Gall methu â chadw at y Cod hwn arwain at roi Polisi Ymddygiad Positif y Coleg a chamau disgyblu posibl ar waith, gan gynnwys eich tynnu oddi ar systemau'r coleg, ymchwiliad ffurfiol, neu achosion troseddol lle bo angen.**

*Parchwch y dechnoleg. Diogelwch eich dysgu. Cadwch yn ddiogel ar-lein.*

| | |
|---|---|
| **Teitl y polisi** | Polisi Defnydd Derbyniol TG ar gyfer Myfyrwyr |
| **Cyflwyniad y polisi** | Bydd y polisi hwn ar gael yn ysgrifenedig (ffont Arial maint 10) yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Gellir gofyn am fformatau eraill. Dylid gwneud ceisiadau o'r fath i vanessa.cashmore@colegsirgar.ac.uk |
| **Cyfathrebu'r polisi** | Porth y Staff a Phorth y Dysgwyr |
| **Prif bwrpas y polisi** *(crynodeb byr)* | Pwrpas y polisi hwn yw amlinellu defnydd derbyniol o'r Rhyngrwyd yng Ngholeg Sir Gâr a Choleg Ceredigion ("y Coleg"). |
| **Prif awdur** *(pwy sy'n medru ddarparu cyngor ac arweiniad ar y cynnwys)* | Stuart Thomas - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol |
| **Dyddiad cymeradwywyd gan y Llywodraethwyr** | 15/05/2025 |
| **Dyddiad dod i rym** | 15/05/2025 |
| **Dyddiad adnewyddu** | 15/05/2028 |
| **Dyddiad yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb** | 07/05/2025 |
| **Dyddiad yr asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg** | 12/05/2025 |
| **Dyddiad yr asesiad o'r effaith ar breifatrwydd** | 12/05/2025 |
| **Risgiau'n gysylltiedig â'r polisi** *(os nad yw'r polisi yn cael ei weithredu)* | Defnyddio'r Rhyngrwyd yn amhriodol; colli enw da; cyfreitha. |